

Ymgynghoriad ynghylch Rheoliadau Ariannu Datgomisiynu Niwclear a Thrin Gwastraff 2010

Ymgynghoriad yw hwn ynghylch y rheoliadau drafft a ddeillir o Ran 3, Pennod 1 Deddf Ynni 2008. Eu nod yw sefydlu rheoliadau:

- i adfer y costau sy'n gysylltiedig ag ystyried Rhaglen Ddatgomisiynu wedi'i Hariannu (FDP), gan gynnwys costau sicrhau cyngor mewn perthynas â'r FDP neu mewn perthynas â'r wybodaeth am yr FDP;
- diwygio'r drefn fel y'i nodir yn Neddf Ynni 2008 ar gyfer addasu FDP gymeradwy;
- ynghylch gofynion adrodd;
- ynghylch dilysu FDP; ac
- er mwyn diffinio cynnwys Rhaglen ddatgomisiynu wedi'i hariannu.

Y mae hwn hefyd yn ymgynghoriad ynghylch Gorchymyn drafft i wneud rhai materion a gysylltir ag FDP yn faterion technegol dynodedig.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am safbwyntiau ynghylch a yw'r cynigion a geir yn y ddogfen hon yn rhoi eglurder ai peidio i weithredwyr gorsafoedd pŵer niwclear newydd a'r cyhoedd ynghylch y trefniadau ariannu y bydd yn rhaid i weithredwr gorsaf bŵer niwclear newydd eu sefydlu er mwyn talu costau llawn y datgomisiynu a'u cyfran llawn o gostau rheoli gwastraff.

Mae Adrannau 2 - 6 y ddogfen hon yn disgrifio'r bwriad polisi y tu cefn i bob rheoliad tra bo'r rheoliadau drafft a'r Gorchymyn drafft i'w gweld yn Atodiad A. Gwneir y rheoliadau gan ddefnyddio'r drefn negyddol tra gwneir y Gorchymyn gan ddefnyddio'r drefn gadarnhaol.

Yn amodol ar drefn y Senedd, bwriad y Llywodraeth yw y bydd y rheoliadau drafft yn dod i rym cyn gynted â phosib ar ôl cwblhau'r broses Seneddol. Y rheswm am hyn yw bod angen rhoi eglurder a dealltwriaeth i ddarpar weithredwyr gorsafoedd pŵer niwclear newydd ynghylch eu dyletswyddau dan y Ddeddf a chaniatáu ar gyfer gweithredu proses adfer costau.

Mae ymgynghoriad arall yn cael ei gynnal ar y cyd â'r ymgynghoriad hwn, sef ymgynghoriad ynghylch y pris uned sefydlog ar gyfer gwaredu gweddillion tanwydd. Mae'n bosib y bydd ymatebwyr yn ei chael yn ddefnyddiol darllen yr ymgynghoriad hwnnw cyn ymateb i hwn. Yn ogystal, gall ymatebwyr ei chael yn ddefnyddiol ailymweld â chanllawiau drafft y Rhaglen Ddatgomisiynu wedi'i Hariannu cyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn¹.

¹ Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddiol (BERR), *Mesur Ynni 2008, Ymgynghoriad ar ganllaw i'r Rhaglen Ddatgomisiynu wedi'i Hariannu ar gyfer Gorsafoedd Pŵer Niwclear Newydd*, Chwefror 2008, URN 08/637, <http://www.berr.gov.uk/files/file44486.pdf>

Adran 1: Nod yr ymgynghoriad hwn

Cyflwyniad

- 1.1 Mewn *Papur Gwyn ar Bŵer Niwclear* cadarnhaodd y Llywodraeth ei hymrwymiad i sefydlu deddfwriaeth er mwyn sicrhau y bydd gan weithredwyr gorsafoedd pŵer niwclear newydd drefniadau ariannu cadarn yn eu lle er mwyn talu costau llawn datgomisiynu a'u cyfran lawn o gostau rheoli gwastraff.
- 1.2 Mae Deddf Ynni 2008 ("y Ddeddf") yn mynnu bod gweithredwr unrhyw orsaf bŵer niwclear newydd yn cyflwyno Rhaglen Ddatgomisiynu wedi'i Hariannu (FDP) i'w chymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn dechrau adeiladu'r orsaf bŵer niwclear newydd. Amcan yr FDP yw sicrhau y gosodir digon o arian o'r neilltu yn ystod oes gynhyrchu trydan yr orsaf bŵer niwclear newydd, fel y gall y gweithredwr dalu'n llawn ac yn ôl yr angen:
 - a. gostau llawn datgomisiynu'r gosodiad; ac
 - b. eu cyfran lawn o gostau rheoli a gwaredu eu gwastraff yn ddiogel a chadarn.
- 1.3 Rhaid i'r rhaglen gynnwys:
 - a. Cynllun Datgomisiynu a Rheoli Gwastraff (DWMP) lle mae'n rhaid disgrifio'r camau² y bydd y gweithredwr yn eu dilyn er mwyn trin, storio, rheoli a gwaredu unrhyw ddeunydd peryglus yn ystod gweithredu'r orsaf;
 - b. y camau at ddatgomisiynu'r gosodiad a glanhau'r safle, gan gynnwys y camau i reoli a gwaredu'r gwastraff (gan gynnwys gweddillion tanwydd) a gynhyrchir trwy ei datgomisiynu wedi hynny ac amcangyfrif o gostau cymryd y camau hyn³;
 - c. Cynllun Trefn Ariannu (FAP) lle mae'n rhaid disgrifio sut mae'r gweithredwr yn bwriadu cwrdd â chostau'r materion technegol dynodedig a manylion y sicrwydd ariannol a sefydlir er mwyn talu'r costau a nodir.
- 1.4 Ymysg pethau eraill, mae'r Ddeddf yn rhoi'r grym i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo'r rhaglen, ei chymeradwyo yn amodol ar addasiadau neu

² Cyfeirir atynt fel 'materion technegol' yn y Ddeddf, gweler Adran 45(5).

³ Cyfeirir atynt fel y 'materion technegol dynodedig' yn y Ddeddf, gweler 45(7)(c). Materion technegol dynodedig yw'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn datgomisiynu'r gosodiad a glanhau'r safle (sy'n cynnwys rheoli a gwaredu gwastraff) unwaith y bydd yr orsaf wedi gorffen cynhyrchu am y tro olaf. Mae angen amcangyfrif costau'r camau hyn a bydd yn rhaid i'r gweithredwr dalu costau'r materion technegol dynodedig o'r Gronfa annibynnol.

amodau, neu i'w gwrthod. Dan y Ddeddf y mae'n drosedd i'r gweithredwr beidio â chydymffurfio â rhaglen a gafodd ei chymeradwyo. Y mae hefyd yn rhoi'r grym i'r Ysgrifennydd Gwladol:

- a. fynnu gwybodaeth gan y gweithredwr ac unrhyw bersonau eraill â rhwymedigaethau dan y rhaglen.
 - b. caffael gwybodaeth gan gyrff corfforaethol eraill sy'n "gysylltiedig"⁴ â'r gweithredwr; a
 - c. chyfarwyddo personau sy'n torri rhwymedigaeth dan y rhaglen i gymryd y cam angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau⁵.
- 1.5 Dan y Ddeddf gall yr Ysgrifennydd Gwladol fynnu bod gweithredwyr yn cynnal adolygiadau o'r FDP fel y pennir mewn rheoliadau⁶.
- 1.6 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol gwneud canllawiau a rheoliadau ynghylch paratoi, cynnwys a gweithredu rhaglen ac addasu FDP a gafodd ei chymeradwyo⁷.
- 1.7 Y mae'r Ddeddf yn sicrhau hefyd bod yn rhaid i weithredwyr hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am unrhyw addasiad i FDP neu unrhyw addasu ar yr amodau a osodwyd ar y rhaglen a gofyn cymeradwyaeth ar eu cyfer⁸. Y mae'n caniatáu hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnig addasiad ar gyfer FDP a gafodd ei chymeradwyo neu addasu'r amodau a osodwyd ar yr FDP.
- 1.8 Cyhoeddodd y Llywodraeth ganllawiau drafft ym mis Chwefror 2008 er mwyn cynorthwyo gweithredwyr i ddeall eu rhwymedigaethau dan y Ddeddf a'r hyn sydd ei angen er mwyn i FDP gael ei chymeradwyo. Nid yw'n fwriad i'r canllawiau drafft ragnodi'n ormodol ond yn hytrach maent yn disgrifio'r egwyddorion y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl eu gweld yn cael eu bodloni yn yr FDP. Mae'r canllawiau drafft yn rhoi gwybodaeth ynghylch ffyrdd y gallai'r gweithredwr fodloni'r egwyddorion hynny.
- 1.9 Mae'r canllawiau drafft yn disgrifio'r camau y dylai'r gweithredwr fynd i'r afael â nhw wrth ddisgrifio eu cynlluniau ar gyfer rheoli gwastraff, gwaredu a datgomiynu. Y mae hefyd yn disgrifio'r diffiniadau a'r tybiaethau a ystyrir yn synhwyrol gan yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn sicrhau dull diogel a gochelgar o gynnal y gweithgareddau hynny. Hefyd mae'n cynnwys gwybodaeth am y costau hynny y byddai disgwyl i'r gweithredwyr eu talu o wariant gweithredol a'r costau fyddai'n cael eu talu o'r Gronfa.
- 1.10 Mae'r canllawiau drafft yn cynnwys manylion am y pynciau y dylai'r gweithredwr roi sylw iddynt yn ei raglen, megis gwybodaeth am

⁴ Gweler Adran 67 ar gyfer ystyr 'cysylltiedig'.

⁵ Gweler Adran 58 y Ddeddf.

⁶ Gweler rheoliad drafft 7.

⁷ Gweler Adran 54 y Ddeddf.

⁸ Gweler Adran 4 y ddogfen hon.

lywodraethu'r Gronfa⁹, y polisi buddsoddi ar gyfer Cronfa, gofynion adolygu ac adrodd, pryd a sut gellir gwneud taliadau o'r Gronfa, a phryd a sut gellir dirwyn Cronfa i ben.

- 1.11 Mae'r canllaw drafft yn disgrifio bwriad y Llywodraeth i sefydlu rheoliadau:
- a. er mwyn adfer y costau sy'n gysylltiedig ag ystyried FDP, gan gynnwys costau sicrhau cyngor mewn perthynas â'r FDP neu mewn perthynas â'r wybodaeth am yr FDP;
 - b. diwygio'r drefn ar gyfer addasu FDP a gafodd ei chymeradwyo;
 - c. ynghylch gofynion adrodd; ac
 - d. ynghylch dilysu FDP.
- 1.12 Y mae'n disgrifio hefyd fwriad y Llywodraeth i wneud Gorchymyn i wneud rhai materion sy'n gysylltiedig ag FDP yn faterion technegol dynodedig.

1.13 Y bwriad yw cyhoeddi'r canllawiau drafft ar eu ffurf derfynol yn ddiweddarach yn 2010 ac y byddant yn rhoi cyfrif am y sylwadau a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad hwn a'r *Ymgynghoriad ynghylch methodoleg i bennu Pris Uned Sefydlog ar gyfer gwaredu gwastraff ac amcangyfrifon costau wedi'u diweddarau ar gyfer datgomisiynu niwclear, rheoli gwastraff a gwaredu gwastraff*¹⁰. Gan fod y canllaw yn ganllaw statudol rhoddir copi o'r fersiwn terfynol yn Llyfrgell y Tŷ. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y canllawiau wrth arfer ei bwerau i gymeradwyo rhaglen; cymeradwyo rhaglen gydag addasiadau neu ei gosod dan amodau neu wneud addasiad arfaethedig i raglen neu i'r amodau a osodwyd ar raglen er mwyn gallu ei chymeradwyo¹¹.

Cymeradwyo FDP a rôl y Bwrdd Aswiriant Ariannu Rhwymedigaethau Niwclear

- 1.14 Cyflwynir yr FDP i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer ei chymeradwyo. Bydd y Llywodraeth yn cynnal asesiad cychwynnol o'r FDP fel y'i cyflwynwyd ac unrhyw ddogfennau ategol, gan gynnwys adroddiadau dilysu¹².
- 1.15 Gan ddefnyddio'r asesiad cychwynnol a gynhaliwyd gan y Llywodraeth, bydd y Bwrdd Aswiriant Ariannu Rhwymedigaethau Niwclear (NLFAB) yn adolygu'r FDP a lle bo angen yn ymgysylltu â'r gweithredwr ynghylch

⁹ Mae Cronfa yn golygu endid a sefydlwyd er diben cronni, rheoli a buddsoddi arian a gafwyd gan y gweithredwr i bwrpas yr Amcan ac mae'n cynnwys, fel y bydd y cyd-destun yn caniatáu neu'n mynnu, unrhyw berson sy'n aelod o'r endid hwnnw, neu sy'n gyfrifol am ei reoli.

¹⁰ *Ymgynghoriad ynghylch methodoleg i bennu Pris Uned Sefydlog ar gyfer gwaredu gwastraff ac amcangyfrifon costau wedi'u diweddarau ar gyfer datgomisiynu niwclear, rheoli gwastraff a gwaredu gwastraff*,
http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/nuc_waste_cost/nuc_waste_cost.aspx,
URN 10D/577.

¹¹ Gweler Adran 54(7) y Ddeddf.

¹² Gweler Adran 3 y ddogfen hon.

cynnwys yr FDP. Gall yr NLFAB ofyn am ragor o wybodaeth neu gyngor arbenigol pellach.

- 1.16 Unwaith y bydd y deunydd angenrheidiol ac unrhyw gyngor arbenigol angenrheidiol gan yr NLFAB, bydd yn darparu archwiliad annibynnol a chyngor am addasrwydd technegol FDP a gyflwynir gan weithredwr gorsaf bŵer niwclear newydd. Bydd yn rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd ynghylch adolygiadau rheolaidd a chraffu parhaus ar y trefniadau ariannu. Bydd costau'r NLFAB yn cael eu hadfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan ddefnyddio'r darpariaethau adfer costau a ddisgrifir yn y rheoliadau drafft.
- 1.17 Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar asesiad trydydd parti annibynnol o elfennau'r FDP. Tra bo'r NLFAB yn drydydd parti annibynnol nid yw'n fwriad gan NLFAB ymgymryd â'r gwaith dilysu manwl a ddisgrifir yn Adran 3 y ddogfen hon. Yn hytrach mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhagweld y bydd yr NLFAB yn ystyried unrhyw ddilysiad gan drydydd parti annibynnol a gyflwynir gyda'r FDP fel rhan o'i gyngor cyffredinol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Sut i ymateb

- 1.18 Rydym eisiau clywed gan aelodau'r cyhoedd, y diwydiant niwclear, sefydliadau cyfreithiol ac eraill a all fod yn rhan o unrhyw orsafoedd pŵer niwclear newydd, sefydliadau anllwydraethol (NGO) ac unrhyw sefydliadau neu gyrff eraill â diddordeb yn y gofynion ar i weithredwyr gorsafod pŵer niwclear newydd fod â threfniadau ariannu cadarn yn eu lle er mwyn talu costau llawn datgomisiynu a'u cyfran lawn o gostau rheoli gwastraff.
- 1.19 Wrth ymateb, a wnewch chi nodi a ydych yn ymateb fel unigolyn, cwmni, ynteu'n cynrychioli barn NGO. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, a wnewch chi egluro beth yw maes diddordeb y sefydliad a, lle bo'n gymwys, sut cafodd barn yr aelodau ei dwyn ynghyd. Mae ffurflen ymateb yn Atodiad B.
- 1.20 Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **18 Mehefin 2010**. Dylid anfon ymatebion drwy'r post neu e-bost at:

Ailsha Dilmohamed
Office for Nuclear Development
Department of Energy and Climate Change
Area 3D
3 Whitehall Place
Llundain
SW1A 2AW

E-bost: decomguidance@decc.gsi.gov.uk

- 1.21 Cyfeiriwch unrhyw gwestiynau am faterion a godir yn yr ymgynghoriad i sylw Ailsha Dilmohamed yn y cyfeiriad uchod.

Cyfrinachedd a diogelu data

- 1.22 Gall y Llywodraeth gyhoeddi eich ymateb. Os nad ydych eisiau i'r ymateb cyfan neu ran ohono neu eich enw gael ei gyhoeddi, a wnewch chi nodi hynny'n glir yn eich ymateb. Os yw system Technoleg Gwybodaeth eich sefydliad yn cynhyrchu ymwadiad cyfrinachedd neu os oes datganiad cyffredinol ynghylch cyfrinachedd ar eich dalen ffacs gyntaf, byddwn yn ystyried hynny'n berthnasol i wybodaeth yn eich ymateb y gwnewch gais penodol i'w chadw'n gyfrinachol yn unig. Os yw eich system Technoleg Gwybodaeth yn cynhyrchu ymwadiad cyfrinachedd awtomatig, ni fydd hynny, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar yr Adran..
- 1.23 Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r trefnau mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).
- 1.24 Os ydych eisiau i wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch, dan ddeddf FOIA, bod yna Gôd Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.
- 1.25 O gofio hynny, fe fyddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro wrthym pam rydych yn ystyried y wybodaeth a ddarparwch yn wybodaeth gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi cyfrif llawn i'ch esboniad, ond ni allwn warantu y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r DPA ac ym mwyafrif yr achosion bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael eu datgelu i drydydd partïon.

Copiâu ychwanegol

- 1.26 Gallwch wneud rhagor o gopiâu o'r ddogfen ymgynghorol hon heb ofyn caniatâd. Gellir lawrlwytho fersiwn electronig o wefan DECC ¹³. I wneud cais am ragor o gopiâu caled, cysylltwch â:

Publications Orderline
Admail 528
Llundain SW1W 8YT
Ffôn: 0845 015 0010
Ffacs: 0845 015 0020
Minicom: 0845 015 0030

Cymorth gyda ymholiadau

¹³ http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/nuc_dec_fin/nuc_dec_fin.aspx

- 1.27 Os oes gennych sylwadau neu gwynion am y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, dylid eu hanfon at:

Consultation Co-ordinator
Department of Energy and Climate Change
Area 6A
3 Whitehall Place
Llundain
SW1A 2AW
E-bost: Consultation.Coordinator@decc.gsi.gov.uk

- 1.28 Mae meini prawf côd ymarfer yr ymgynghoriad i'w gweld yn <http://www.berr.gov.uk/whatwedo/bre/consultation-guidance/page44420.html>

Beth sy'n digwydd nesaf?

- 1.29 Rhoddir ystyriaeth i ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wrth ddatblygu'r rheoliadau terfynol. Y mae'n fwriad i'r rheoliadau ddod i rym yn yr hydref 2010 ac y bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad yr un pryd â chyflwyno'r rheoliadau.